**Ymgynghoriad - Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

I helpu'r Pwyllgor yn ei waith cynllunio, **rydym yn awyddus i glywed oddi wrth randdeiliaid yn ystod yr haf am y materion y dylem ni, yn eich tyb chi, fod yn canolbwyntio arnynt**. Byddwn yn ystyried eich ymatebion yn gynnar yn yr hydref.

Rydym wedi cael trafodaeth gychwynnol, anffurfiol, gan nodi nifer o feysydd y byddwn am eu cynnwys o bosibl yn ein rhaglen ar gyfer y tymor hwy. Fe'u nodir isod, a byddai'n ddefnyddiol cael eich barn arnynt:

- Cyllid yr UE ar gyfer rhaglenni trechu tlodi
  Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £192 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) i gefnogi blaenoriaeth 1 ESF, 'trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy' yn ystod cyfnod 2014-2020 yn y rhaglen. Hyd yn hyn, dyrannwyd £70 miliwn o'r arian hwn i brosiectau penodol. Gallai'r Pwyllgor ystyried syniadau am y ffordd ymlaen ar gyfer rhaglenni trechu tlodi y tu hwnt i aelodaeth o'r UE.

- Tlodi mewn gwaith
  Mae hanner y bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn gweithio. Mae teuluoedd sy'n gweithio a phobl ifanc yng Nghymru mewn mwy o berygl o dlodi erbyn hyn nag yr oeddent ddegawd yn ôl. Gallai'r Pwyllgor edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru lwyddo i leihau ac atal tlodi mewn gwaith.

- Tlodi a diwygio lles
  Gallai'r Pwyllgor ystyried goblygiadau'r newidiadau i fudd-daliadau lles ar gyfer tlodi yng Nghymru, ac effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru o ran ei hymateb. Gallai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar dri mesur diwygio lles sydd wedi cael effaith sylweddol ar Gymru: cyflwyno'r elfen o ran budd-dal sy'n ymwneud â thanfeddiannu tai cymdeithasol; credyd cynhwysol; a rhoi'r taliad annibyniaeth bersonol (PIP) yn lle'r lwfans byw i'r anabl (DLA).

- Effeithiolrwydd Cymunedau yn Gyntaf
  Gallai'r Pwyllgor edrych ar yr hyn a gyflawnwyd gan raglen trechu tlodi flaenllaw Llywodraeth Cymru dros 15 mlynedd, sut y mae'n cael ei monitro ac a yw'n rhoi gwerth am arian.

- Craffu ar ôl deddfu ar y dyletswyddau digartrefedd newydd a osodir gan y Ddeddf Tai (Cymru) 2014;

Mae Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi newid deddfwriaeth ddigartrefedd yng Nghymru; canolbwyntir ar atal bellach. Gallai'r Pwyllgor edrych ar effaith ac effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth newydd ac a yw'n cyflawni'r hyn a addawyd.

- Y cyflenwad tai
  Cynhaliodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gynt ymchwiliad byr i'r rhwystrau i adeiladu tai yn 2013. Yng ngoleuni'r rhagolygon diweddaraf o ran yr angen a'r galw am dai, gallai'r Pwyllgor edrych ar y materion ehangach sy'n effeithio ar gyflenwi yn y sector cymdeithasol, y sector preifat neu'r sector cyfan. Gallai hyn gynnwys ystyried mentrau sicrhau bod adeiladau gwag yn cael eu meddiannu eto. Gallai'r gwaith hwn gyd-fynd â'r Bil hawl i brynu a ddisgwylir yn ystod tymor yr hydref.

- Ad-drefnu a diwygio Llywodraeth Leol
  Yn dilyn etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn fwriad ganddi ailystyried ei chynigion ar gyfer ad-drefnu a diwygio Llywodraeth Leol, fel y'u nodwyd yn y Pedwerydd Cynulliad. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi nodi y bydd yn cyflwyno cynigion newydd yn nhymor yr Hydref y bydd y Pwyllgor am graffu arnynt.

Gorffennaf 2016